**<u>Pwyllgor Datblygu Economaidd</u>** **<u>EDC 07-01(p5)</u>**

**Dyddiad:** 9 Mai 2001
**Lleoliad:** Ystafell bwygora 3, Adeiliad y Cynulliad Cenedlaethol
**Teitl:** Cydlyniad yr UE (dyfodol y Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006)

## Diben

1. Cyflwyno'r Adroddiad Cydlyniad i'r Pwyllgor. Mae hyn yn rhannol er gwybodaeth ac yn rhannol ar gyfer trafodaeth ragarweiniol. Y papur hwn fydd y cyntaf o nifer ar y pwnc fel y mae'r ddadl yn datblygu dros y tair blynedd nesaf. Y digwyddiad mawr cyntaf sy'n cael ei gynnal er mwyn trafod yr adroddiad yw'r Fforwm Cydlyniad ym Mrwsel ar 21 a 22 Mai. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog, Val Feld AM sef Cadeirydd y Pwyllgor, Phil Williams AC ac Alun Cairns AC yn mynychu'r Fforwm. Bydd swyddogion o'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru hefyd yn bresennol. Bydd y Cynghorwyr Ronnie Hughes (Conwy) a Brian Smith (Torfaen) yn bresennol o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ynghyd â'u swyddogion.

Ceir yn Atodiad A grynodeb o'r Adroddiad Cydlyniad.

## Cefndir

2. Lluniwyd yr Adroddiad Cydlyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd er mwyn asesu cyflwr y cydlyniad cymdeithasol ac economaidd o fewn yr Undeb Ewropeaidd (15 gwlad yr UE). Mae'r Adroddiad yn rhagweld y bydd yr Undeb yn ehangu i 27 Aelod-wladwriaeth o bosibl, a'r diwygio tebygol ar y Cronfeydd Strwythurol a Chydlyniad oherwydd hyn.

3. Mae'r Adroddiad yn dadansoddi lefel y cydlyniad yn yr UE a'r ffactorau sy'n effeithio arno (globaleiddio, ehangu a'r chwyldro gwybodaeth a ystyrir fel y tri dylanwad mwyaf pwysig). Mae hefyd yn asesu cyfraniad y polisïau Cymunedol presennol at hyrwyddo cydlyniad ac yn rhoi argymhellion posibl (braidd yn betrusgar) ar gyfer rhaglenni ar ôl 2006 a'r blaenoriaethau ar gyfer yr Aelod-wladwriaethau newydd.

4. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi braslun o effeithiolrwydd y Cronfeydd Strwythurol hyd yn hyn. Canolbwyntio'n bennaf ar gyfraniad rhaglenni eraill y mae'r gwerthuso yn hytrach na chanlyniadau neu effeithiau, ac ychydig iawn o sylw a roddwyd i ffactorau allanol megis rhaglenni domestig neu dueddiadau economaidd ehangach. Dengys y gwerthusiadau bod y rhanbarthau Amcan 1 wedi cydgyfeirio ychydig tuag at lefelau ffyniant cyfartalog yr UE, ond cyfnewidiol y bu hyn. Gellir tybio bod Amcan 2, 3 a 5b wedi arwain at gynnydd mewn cyflogaeth, ond mae effaith y cronfeydd Ewropeaidd yn erbyn adnoddau domestig yn anodd i'w hasesu. Mae'r adroddiad yn datgan bod Mentrau Cymunedol yn rhoi gwell tystiolaeth o werth ychwanegol, ond bod y mwyafrif yn seiliedig ar dystiolaeth ansoddol ac asesu dangosyddion megis lefelau cyfranogiad y gymuned.

5. Mae’r Adroddiad hefyd yn amlinellu pedwar opsiwn ar gyfer dynodi statws Amcan 1 yn y dyfodol, sef:

- Cynnal y trothwy o 75%
- Yr un dull, ond cymorth dros dro ar gyfer y rhanbarthau sy’n colli statws Amcan 1, a lefelau uwch ar gyfer y rhai fyddai wedi llwyddo i sicrhau statws Amcan 1 eto, oni bai am yr ehangiad.
- Pennu trothwy uwch
- Dau drothwy, un ar gyfer 15 gwlad yr UE ac un ar gyfer Aelod-wladwriaethau newydd.

Mae opsiynau dau, tri a phedwar yn debygol o ganiatáu i lefelau uwch o dderbyniadau fynd at yr Aelod-wladwriaethau presennol. Mae’r Adroddiad yn rhagweld y bydd ardaloedd NUTS II yn parhau fel y lefelau o gymorth sy’n briodol ar gyfer rhaglenni Amcan 1, ac mai rhaglenni Amcan 1 yw’r cyfrwng mwyaf effeithiol o gymorth ar gyfer yr rhanbarthau sydd ar eu hôl hi.

**Y Camau Nesaf**

6. Bwriad yr Adroddiad Cydlyniad yw symbylu dadl ar ddyfodol polisi rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y ddadl yn datblygu’n drafodaethau llawn sy’n cynnwys yr holl Aelod-wladwriaethau ac sy’n debygol o gymryd tair blynedd i’w cwblhau. Mae Arlywyddiaeth Gwlad Belg yn debygol o ddechrau’r broses drwy gynnal cyfarfod Gweinidogaethol anffurfiol ar lefel yr Aelod-wladwriaeth yng nghanol mis Gorffennaf.

7. Bydd trafod adroddiad mor helaeth a chymhleth yn broses lafurus iawn. Treulir y mwyafrif o’r camau cynnar yn clustnodi materion i’w trafod cyn eu datrys. Mynegodd nifer o’r Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, eu dymuniad i drafod y materion yn drwyadl yn hytrach nag yn gyflym.

8. Mae’r drafodaeth yn canolbwyntio ar nifer o faterion gan gynnwys:

- Pa fath o bolisi rhanbarthol y bydd ei angen ar UE sy’n cynnwys 27 gwlad yn hytrach na’r hen UE sy’n cynnwys 15 gwlad?
- Sut y gallai’r cronfeydd Strwythurol a Chydlyniad gynnig gwerth ychwanegol gwirioneddol?
- Sut y gallai polisïau eraill yr UE atgyfnerthu’r ymdrechion i hybu cydlyniad?

- Beth fydd rôl y Comisiwn mewn perthynas â pholisi rhanbarthol ledled yr UE ar ôl 2006?

- A ddylai'r Perspectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd gyfrannu gwybodaeth at yr ystyriaeth o sut i ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo datblygiad ar sail bolysentrig ledled Ewrop?

- A allai 15 aelod yr UE lacio'r rheolau ar ddefnyddio adnoddau domestig ar gyfer Polisi Rhanbarthol (yn enwedig Cymorth Gwladol) yn lle derbyniadau sylweddol o'r Cronfeydd Strwythurol?

9. Mae'r trafodaethau a gynhelir o fewn llywodraeth y DU yn y camau cynnar ar hyn o bryd, ac eto'n canolbwyntio'n bennaf ar glustnodi meysydd ar gyfer trafod manylach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y dybiaeth gref y dylai'r ymyriadau ategu agenda Lisbon sef hyrwyddo'r economi wybodaeth, cystadleuaeth a dyfeisgarwch, buddsoddi mewn pobl, mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy.

- Y dymuniad cryf na ddylai diwygio'r Cronfeydd Strwythurol a Chydlyniad rwystro'r broses o ehangu.

- Y dymuniad i weld y trafodaethau ar ddyfodol y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu hybu gan wybodaeth o werthusiad raglenni blaenorol, sydd o ansawdd gwell na'r hyn a gafwyd o'r blaen.

Mae'r meysydd sydd angen eu trafod yn fanwl yn cynnwys:

- A ddylai cyfanswm cyllideb y Cronfeydd Strwythurol aros yn 0.46% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth yr UE? Byddai cynnydd yn y gyllideb yn sicr o arwain at gynnydd yng nghyfraniad y DU.

- Os derbynnir y bydd yr Aelod-wladwriaethau newydd yn Nwyrain Ewrop yn derbyn y mwyafrif o gymorth y Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006, a ddylai'r DU geisio cadw lefelau sylweddol o dderbyniadau neu geisio defnyddio ffyrdd eraill i hyrwyddo datblygiad rhanbarthol (gweler uchod)? Os ydym yn gwneud hynny, a ddylent ganolbwyntio ar raglenni daearyddol sydd wedi'u targedu, neu ar ymyriadau thematig megis dyfeisgarwch neu hyfforddiant?

10. Bydd safbwynt y DU yn cael ei ddatblygu, yn gynyddol, dros y dwy i dair blynedd nesaf. Bydd yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) yn arwain y trafodaethau ar y lefel Ewropeaidd, ond

fe fydd y Cynulliad yn chwarae rôl lawn wrth ddatblygu safbwynt y DU. Mae swyddogion eisoes wedi nodi bod blaenoriaethau cychwynnol Cymru'n cynnwys rhaglen drosiannol ar gyfer ardal Amcan 1 a chymorth ar gyfer gwerthuso'n sylweddol yr arian a ddefnyddiwyd hyd yn hyn. Rydym yn bwriadu cefnogi'r galw am symleiddio'r ffordd y caiff y cyllid ei weinyddu ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, ac yn archwilio a oes cyfle i fod yn hyblyg o safbwynt dynodi ardaloedd Amcan 1 sydd ar lefelau GDP yr ardaloedd NUTS II.

11. Bellach, caiff yr Adroddiad ei drafod yn y Fforwm Cydlyniad. Bydd y Fforwm yn cynnwys tua 2,000 o wleidyddion a swyddogion o'r llywodraethau canolog, rhanbarthol a lleol ledled 15 gwlad y UE a'r gwledydd sy'n ymuno. Bydd maint yr achlysur yn ehangu'r ddadl yn hytrach na'i datblygu, ond fe fydd yn golygu y bydd mwy o bobl yn gallu cyfrannu nag o'r blaen. Yn dilyn y Fforwm, disgwylir y bydd y ddadl yn datblygu yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU, a bydd y gwaith o ddatblygu safbwynt y DU yn parhau. Caiff safbwynt y Cynulliad ei drafod gyda phartneriaid allanol allweddol a'r Pwyllgor.

**Amseru**

12. Bydd y Fforwm Cydlyniad yn cyfarfod ar 21 a 22 Mai, ac fe fyddai o gymorth petai aelodau'r Pwyllgor yn gyffredinol ac yn enwedig y rhai sy'n mynychu'r Fforwm, yn cael cyflwyniad i'r materion ymlaen llaw.

**Casgliadau**

13. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i gyflwyno eu sylwadau cychwynnol ar y materion a godwyd yn y papur. Er hyn, dim ond dechrau'r ddadl yw hyn, a fe fydd materion cliriach yn dod i'r amlwg dros y misoedd nesaf.